Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Egluro Ofgem

**Taflen ffeithiau 114** 27.09.12 www.ofgem.gov.uk

**Prif flaenoriaeth Ofgem yw diogelu defnyddwyr ynni nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn rheoleiddio'r cwmnïau rhwydwaith pibelli a gwifrau ac yn goruchwylio'r farchnad ynni, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle y bo'n briodol.**

## Hyrwyddo cystadleuaeth yn ystod y newid

Nid yw Ofgem yn rheoleiddio prisiau manwerthu ynni - mae'r rhain yn cael eu gosod gan gyflenwyr ynni y dylai eu gweithredoedd gael eu cyfyngu gan rymoedd y farchnad. Ein rôl yw hyrwyddo cystadleuaeth a rheoleiddio lle y bo angen.

Yn dilyn ein hadolygiad o'r farchnad manwerthu ynni, rydym wedi cynnig diwygiadau er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon cystadleuol i ddwyn pwysau ar brisiau ac ansawdd gwasanaethau. Canfu ein hadolygiad fod cystadleuaeth yn cael ei llesteirio drwy gyfuniad o dariffau cymhleth, ymddygiad gwael ymhlith cyflenwyr a diffyg tryloywder.

Nod ein diwygiadau hefyd yw gwneud cyflenwyr ynni yn fwy tryloyw a gwella'r ffordd y maen nhw'n cyfathrebu â'u cwsmeriaid.

Ers ein hadolygiad, rydym wedi gweld amrywiaeth o ddatblygiadau gan nifer o gyflenwyr ar dariffau symlach, gwell cysylltiadau a sawl menter i adfer hyder defnyddwyr drwy fod yn fwy agored â nhw. Caiff y rhain eu croesawu, ond, rydym yn dal i gredu bod diwygio rheoleiddiol y gellir ei orfodi yn elfen hanfodol o wella hyder ac ymgysylltu defnyddwyr yn y farchnad. Byddwn yn cyhoeddi'r cynigion diweddaraf ar ein gwaith yn y maes hwn cyn y gaeaf.

Rydym hefyd yn ei gwneud yn haws i gyflenwyr llai gael troedle yn y farchnad drydan drwy gynnig bod y Chwech Mawr yn arwerthu mwy o drydan yn y farchnad gyfanwerthu. Mewn ymateb i'r gwaith hwn, mae rhai camau cynnar wedi eu cymryd gan y Chwech Mawr i wella'r ffordd maent yn masnachu trydan. Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwaith yn y maes hwn a byddwn yn cyhoeddi'r cynigion diweddaraf cyn y gaeaf.

## Gorfodi

Mae Ofgem yn diogelu cwsmeriaid drwy ymchwilio i gwmnïau a'u cosbi lle gwelwn eu bod wedi ymddwyn yn wrth gystadleuol neu wedi torri cyfraith gwarchod defnyddwyr.

- Rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012, talwyd £19.7m o ddirwyon gan gwmnïau ynni o ganlyniad i'n camau gorfodi.
- Fis Mawrth eleni, cytunodd EDF Energy i dalu swm o £4.5 miliwn i gwsmeriaid sy'n agored i niwed yn lle cael cosb gan Ofgem am dorri amodau marchnata ei drwydded. Mae gwybodaeth fanylach am ein gweithgarwch gorfodi ar gael yma: http://www.ofgem.gov.uk/Media/FactSheets/Documents1/factsheet%20113%20-%20enforcement.pdf


## Mae Ofgem yn rhoi cymorth a chyngor i gwsmeriaid mewn sawl ffordd

**Ynni – Y Fargen Orau**


- Mae'r ymgyrch Ynni - Y Fargen Orau a ddechreuwyd ar y cyd â Cyngor ar Bopeth, yn rhoi cyflwyniadau ymarferol i ddefnyddwyr incwm isel a staff rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o wynebu tlodi tanwydd. Ers 2008 mae wedi helpu 189,000 o bobl drwy roi cyngor ar sut i gadw eu biliau mor isel â phosibl.

**Rhwymedigaethau cymdeithasol cyflenwyr**

- Mae Ofgem yn monitro ac yn cyhoeddi adroddiadau chwarterol a blynyddol ar berfformiad cyflenwyr mewn perthynas â'u rhwymedigaethau cymdeithasol, gan gynnwys dyled, cyfraddau datgysylltu, mesuryddion rhagdalu, Cofrestri Gwasanaethau â Blaenoriaeth a chyngor ar effeithlonrwydd ynni. Mae Ofgem wedi gweithio i sicrhau mai dim ond pan fetho popeth arall y caiff datgysylltu ei ddefnyddio gan gyflenwyr. Rydym hefyd wedi gwneud yn siŵr bod cyflenwyr wedi gwella o ran helpu cwsmeriaid mewn dyled er enghraifft, drwy gytuno ar gynlluniau ad-dalu sy'n ystyried gallu'r cwsmer i dalu. O ganlyniad, mae cyfanswm nifer y datgysylltiadau ar gyfer nwy a thrydan wedi gostwng o bron i 30,000 yn 1998 i lai na 1,100 yn 2011.
- Yn ystod y gaeaf (1 Hydref i 31 Mawrth), gwaherddir cyflenwyr rhag datgysylltu'n fwriadol gwsmeriaid o oedran pensiynadwy sy'n byw ar eu pennau eu hunain, gyda phensiynwyr eraill, neu gyda phlant. Rhaid i gyflenwyr hefyd gymryd pob cam rhesymol yn ystod y gaeaf i osgoi datgysylltu safle lle mae gan y cwsmer neu'r preswylwyr anabledd, salwch cronig neu eu bod o oedran pensiynadwy.



**Graff 2:** Gwahaniaethau rhwng mesurydd rhagdalu ar gyfartaledd




Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofgem

### Mesuryddion Rhagdalu

- Mae Ofgem yn derbyn y dylai'r cyflenwr allu codi prisiau uwch neu is ar gwsmeriaid, yn dibynnu ar y costau a wynebir am gynnig tariff. Er enghraifft, mae'n costio mwy i gyflenwyr ddarparu mesurydd rhagdalu (PPM) gan fod rhaid iddynt dalu'r rhwydwaith o siopau gwerthu papurau a siopau eraill i gynnig gwasanaethau ychwanegu credyd at gerdyn. Fodd bynnag, pan edrychwyd ar y farchnad yn 2008 gwelsom nad oedd y premiymau a dalwyd gan gwsmeriaid yn adlewyrchu costau'r cyflenwyr mewn rhai achosion, a'u bod yn codi gormod o dâl ar gwsmeriaid.
- Felly, cyflwynwyd rheolau gennym yn datgan bod yn rhaid i unrhyw wahaniaethau rhwng dulliau talu adlewyrchu'r gost. O ganlyniad, mae cyflenwyr wedi gostwng y premiwm a godir ar gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu yn sylweddol, o gymharu â dulliau talu eraill. Mae'r graff yn dangos fod prisiau PPM dros £120 yn uwch na phrisiau Debyd Uniongyrchol (DD) yn 2007, a tua £50 yn uwch na'r rhai ar gyfer cwsmeriaid credyd safonol sy'n talu'n chwarterol (SC). Mae'r gwahaniaeth hwn wedi gostwng i tua £80 o gymharu â debyd uniongyrchol erbyn hyn. Mae hefyd yn dangos fod tariffau PPM tua £20 yn rhatach na thariffau safonol bellach. (Noder nad yw'r gymhariaeth rhwng cwsmeriaid PPM a chwsmeriaid credyd safonol yn cynnwys y gostyngiad am dalu'n brydlon y mae rhai cwsmeriaid yn ei gael am dalu eu bil cyn gynted â phosibl ar ôl ei dderbyn).

### Olrhain prisiau ynni

I helpu cwsmeriaid i ddeall prisiau ynni, mae Ofgem yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am brisiau cyfanwerthu a manwerthu ar ei gwefan yn wythnosol. Mae'r holl wybodaeth hon ar gael yma: http://www.ofgem.gov.uk/Markets/RetMkts/rmr/smr/Pages/indicators.aspx

### Rheoleiddio'r rhwydweithiau

Mae cost cludo ynni i'n cartrefi yn gyfrifol am tua un rhan o bump o'r bil nwy a thrydan cyfun. Mae Ofgem yn rheoleiddio'r cwmnïau rhwydwaith sy'n cludo ynni drwy reoli prisiau, gan nodi'r swm mwyaf o refeniw y gallant ei ennill dros gyfnod penodol o amser. Y nod yw sicrhau bod y buddsoddiad sydd ei angen yn y pibellau a'r gwifrau sy'n cludo ynni yn digwydd ar amser ac yn cael ei ddosbarthu i ddefnyddwyr yn y ffordd fwyaf cost effeithlon. Hanerwyd y taliadau gan gwsmeriaid am gyflenwi pŵer ar gridiau foltedd is yn yr 20 mlynedd gyntaf ers preifateiddio. A thros y cyfnod hwnnw, cafodd mwy na £35 biliwn hefyd ei fuddsoddi yn rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu Prydain.

Fodd bynnag, mae ein rhwydweithiau yn wynebu her fawr i adnewyddu hen seilwaith ac i addasu at anghenion economi carbon isel. O ganlyniad, bydd angen buddsoddi'n sylweddol drwy reoli prisiau rhwng nawr a 2020. Drwy ein fformiwla newydd ar gyfer rheoleiddio rhwydweithiau - RIIO (Refeniw = Cymhellion + Arloesedd + Allbynnau), byddwn yn rhoi cymhellion cryf a chosbau i gwmnïau er mwyn ysgogi mwy o effeithlonrwydd wrth ddarparu'r buddsoddiad hwn. Caiff y rheini sy'n perfformio'n dda dros gwsmeriaid eu gwobrwyo a bydd y rheini nad ydynt yn gwneud hynny yn cael eu cosbi.

Gan ddefnyddio'r fformiwla hon, rydym wedi bod yn adolygu rheolaethau ar brisiau ar gyfer cyflenwi nwy a chwmnïau trawsyrru ynni o 2013 i 2021.

O dan gynigion RIIO Ofgem i reoli prisiau, bydd cwmnïau'n gallu gwario dros £30 biliwn i ddarparu rhwydweithiau nwy a thrydan foltedd uchel wedi'u huwchraddio ar draws Prydain. Bydd hyn yn arwain at filiau uwch i gwsmeriaid, fodd bynnag, rydym wedi craffu ar gynlluniau busnes y cwmnïau i sicrhau gwerth i ddefnyddwyr. Dros y cyfnod o wyth mlynedd, bydd defnyddwyr domestig yn talu ar gyfartaledd, £15 y flwyddyn yn fwy nag y maent yn ei dalu ar hyn o bryd o ganlyniad i'r cyhoeddiad heddiw. Nid yw'r cyfartaledd o £15 yn ffigur cronnus felly nid yw'n golygu y bydd y bil yn cynyddu o £15 bob blwyddyn, ond mai dyma fydd y swm ychwanegol, ar gyfartaledd, y bydd cartref yn ei dalu mewn unrhyw flwyddyn mewn perthynas â'r bil presennol.

## Dibynadwyedd

Mae gwelliannau o ran dibynadwyedd ac argaeledd gridiau foltedd is hefyd yn parhau. Ers 2002 mae'r ymyriadau i gyflenwadau wedi bod yn llai ac yn fyrrach. Mae toriadau yng nghyflenwad cwsmeriaid wedi lleihau o 17 y cant ac mae'r amser y bu pobl heb gyflenwad wedi lleihau o 25 y cant. Mae hyn yn adlewyrchu'r cymhellion a gyflwynodd Ofgem yn 2002 a bennodd dargedau i berchenogion rhwydweithiau cyflenwi trydan, gyda chosbau pe byddent yn eu methu a gwobrwyon ariannol pe byddent yn rhagori arnynt.

## Rhoi ar waith yr hyn yr ydym yn ei ddweud ar reoleiddio

Mae Ofgem yn unigryw ymysg rheoleiddwyr Prydain o ran cadw unrhyw gynnydd mewn costau i 3 y cant o dan chwyddiant. Mae hyn a mesurau eraill wedi arbed dros £11.9 miliwn yn y pum mlynedd gyntaf o hunan reoli costau (2005-2010). Bydd Ofgem yn parhau i gadw unrhyw gynnydd mewn costau i 3 y cant o dan chwyddiant rhwng 2010 a 2015 gydag arbedion arfaethedig o £12.5 miliwn.

Yn ***'Perfformiad Ofgem 2010-11, nodiadau ar gyfer Pwyllgor Ynni a Newid Hinsawdd Tŷ'r Cyffredin, Tachwedd 2011'***, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn nodi bod 'gan Ofgem system gadarn o reolaethau ariannol a dulliau adrodd'.

Mae'r uned fusnes, Ofgem E-Serve, yn gweinyddu nifer o gynlluniau amgylcheddol y Llywodraeth, sydd, er enghraifft, yn annog twf ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Ym mhob achos, mae Ofgem E-Serve yn gweinyddu'r cynlluniau hyn am lai nag un y cant o gyfanswm cost y rhaglen. Mae hyn yn sylweddol is na meincnodau ar gyfer rhaglenni eraill o fewn y llywodraeth.

Ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd, cysylltwch â'r:

**Tîm Materion Defnyddwyr**
020 7901 7295 e-bost: consumeraffairs@ofgem.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:

**Lydia Fitzpatrick, Uwch Swyddog Cyfathrebu**
020 7901 7419 e-bost: lydia.fitzpatrick@ofgem.gov.uk

**Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg**
020 7901 7225 e-bost: chris.lock@ofgem.gov.uk